

Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

3 Hydref 2017

Annwyl Dai

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r gost o ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio. Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar ofynion cysylltiedig ar wasanaethau ofal cymdeithasol ac nid integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

Diben yr ymchwiliad yw asesu effaith ariannol y gost o ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio, a hynny yng nghyd-destun y prif heriau economaidd a strategol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu polisi:

- Archwilio patrymau yn y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i bobl oed pensiwn a'r costau cysylltiedig ar gyfer darparu gofal preswyl a dibreswyl, gan ystyried rôl gofalwyr anffurfiol sy'n darparu gwasanaethau di-dâl i'r bobl hynny y mae angen gofal arnynt;
- Archwilio'r pwysau ariannol ar y system gofal cymdeithasol, fel cynnydd mewn cyflogau, cofrestru ar gyfer pensiynau awtomatig ac anawsterau recriwtio a chadw staff, gan gynnwys yr effeithiau ariannol cysylltiedig yn sgil y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- Ystyried effaith ariannol polisiâu Llywodraeth Cymru - gan gynnwys deddfwriaeth a diwygiadau diweddar mewn cysylltiad â chyllid gwasanaethau cymdeithasol - ar awdurdodau lleol, darparwyr gofal a defnyddwyr gwasanaeth;
- Ystyried anghenion gofal cymdeithasol yn y dyfodol a chostau cysylltiedig, gan gynnwys cynnydd a ragwelir yng nghyfran poblogaeth Cymru sydd o oed pensiwn;



- Asesu'r dulliau ariannol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r trefniadau ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried modelau eraill, gan gynnwys enghreifftiau rhyngwladol, i ariannu gofal cymdeithasol i sicrhau gwasanaeth teg a chynaliadwy o safon mewn cyfnod o alw cynyddol ar y systemau gofal iechyd a gofal cymdeithasol; ac
- Ystyried canfyddiadau a chasgliadau'r Adolygiad Seneddol.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gyflwyno cais am dystiolaeth ysgrifenedig gan bartïon â diddordeb a chynnal sesiynau tystiolaeth llafar ar ddechrau 2018.

O ystyried diddordeb eich Pwyllgor yn y maes hwn, byddem yn fodlon eich hysbysu o'r diweddaraf wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Byddai croeso i gynrychiolydd o'ch Pwyllgor ddod i arsylwi ein sesiynau tystiolaeth, ond rwy'n sylweddoli y gallai cyfyngiadau o ran yr amserlen atal hynny rhag digwydd.

Rhowch wybod os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad hwn. Bydd y Clerc yn sicrhau bod pob gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â Chlerc eich Pwyllgor.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

